

AMGUEDDFA AC ORIEL GENEDLAETHOL CAERDYDD

# Cynllunio'ch Ymweliad

## Eich Canllaw i Ymweliad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol







AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru





# Cynnwys


Tudalen 1 **Trefnu'ch ymweliad**

Tudalen 2-3 **Gwybodaeth Gyffredinol**
- Wrth gyrraedd
- Mynediad i Bobl Anabl
- Ffonau Symudol
- Newid yr Arddangosfeydd
- Toiledau
- Ffotograffiaeth
- Arlunio yn yr Orielau

Tudalen 4 **Cyfleusterau Arbennig ar gyfer Grwpiau Ysgolion**
- Ystafell Gotiau
- Siop yr Amgueddfa
- Ystafell Frechdanau
- Ymweliadau Rhagflas

Tudalen 5 **Iechyd a Diogelwch**
Mewn Argyfwng

Tudalen 6-7 **Beth gawn ni ei weld?**
- Oriel Glanely
- Esblygiad Cymru
- Archaeoleg a Nwmismateg
- Celf
- Hanes Natur

Tudalen 8-9 **Y Tu ôl i'r Llenni yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol**
- Y Llyfrgell
- Ystafell Astudio Printiadau a Darluniau
- Cagliadau wrth Gefn


Tudalen 10-11 **Map o'r Safle**

# Trefnu'ch ymweliad

Gobeithio y mwynhewch eich ymweliad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd. Bydd y wybodaeth sy'n dilyn yn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich ymweliad. Cewch wybod mwy am arddangosfeydd, gweithdai, sesiynau oriel a dyddiau hyfforddi sydd wedi'u trefnu trwy fynd i'n gwefan **www.aocc.ac.uk.**

## Dod yma:

Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.
Dilynwch yr arwyddion i ganol y ddinas. Mae'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol yn y ganolfan ddinesig. Codir tâl bychan am barcio ym Maes Parcio'r Ymwelwyr.




## Mynediad - AM DDIM

Codir tâl am weld rhai o'r arddangosfeydd dros dro. Holwch am fanylion.

## Trefnu ymlaen llaw:

Gofynnir i grwpiau drefnu eu hymweliad ymlaen llaw.

## Rhestr o rifau defnyddiol:

| | |
|---|---|
| Adran Addysg | (029) 2057 3278 / 3240 *(ysgolion a cholegau)* |
| Swyddfa Ddigwyddiadau | (029) 2057 3148 *(gwybodaeth gyffredinol am ddigwyddiadau yn yr Amgueddfa)* |
| Adran Farchnata | (029) 2057 3471 *(grwpiau diddordebau arbennig)* |
| Siop yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol | (029) 2057 3478 |

## Amserau agor:

Mawrth - Sul, 10am - 5pm a phob dydd Llun Gŵyl y Banc.
Mae swyddfeydd yr Amgueddfa ar gau ar benwythnosau ac ar wyliau'r banc.



# Gwybodaeth Gyffredinol

## Wrth Gyrraedd

Caiff bysiau ollwng a chodi grwpiau yn union y tu allan i'r brif fynedfa. Gofynnir i arweinydd y grŵp gofrestru wrth y Dderbynfa. Dewch â'r papur sy'n cadarnhau'r trefniant gyda chi. Mae'n rhaid i arweinydd y grŵp nodi'r union nifer sydd yn y grŵp wrth gofrestru. Yn y Brif Neuadd y mae ymweliadau tywys yn cychwyn oni nodwyd yn wahanol.

## Toiledau

Mae'r rhain oddi ar y Brif Neuadd ar lefel yr is-lawr.

## Mynediad i Bobl Anabl

Mae canllawiau mynediad ar gael ar ein gwefan **www.aocc.ac.uk** neu drwy ffonio (029) 2057 3149.



## Ffotograffiaeth

Caniateir tynnu ffotograffau at ddefnydd personol yn yr holl orielau ac eithrio lle dangosir y symbol hwn.

Gofynnwn i ymwelwyr sy'n tynnu lluniau â chamera lofnodi ffurflen wrth y dderbynfa.

## Ffonau Symudol

Fel arwydd o gwrteisi at ymwelwyr eraill, gofynnir i chi beidio â defnyddio eich ffôn symudol yn yr Orielau.



## Arlunio yn yr Orielau

Nid yw defnyddiau arlunio yn gwneud drwg i'r orielau na'r arddangosfeydd fel arfer ond gall ymylon byrddau arlunio, a phinnau ysgrifennu a phenseli miniog niweidio fframiau, darluniau sydd heb wydr drostynt a cherfluniau. Gall defnyddiau lliwio a gwahanol fathau o lud ddifrodi gweithiau celf, gwrthrychau, waliau neu loriau os cânt eu gollwng arnynt trwy ddamwain.

Gofynnir i chi fod yn ofalus:

- Peidiwch â mynd â phaent, creons, pensiliau, lliwiau pastel ac ati yn agos at waliau, gwrthrychau na gweithiau celfyddyd. Os byddwch yn defnyddio paent, siarcol neu liwiau pastel, dewch â'ch defnydd eich hunan i orchuddio'r llawr.

- Peidiwch â mynd â byrddau arlunio na chlipfyrddau yn agos at weithiau celfyddyd na blychau arddangos.

- Peidiwch â mynd â defnyddiau sticio na glynu i Orielau 8 a 9 lle dangosir gweithiau celfyddyd ar bapur. Yn yr orielau eraill, mae'n rhaid i chi beidio â'u chwistrellu yn agos at y gweithiau sy'n cael eu harddangos ac mae'n rhaid i chi roi rhywbeth dros y llawr i'w warchod.

## Newid yr Arddangosfeydd

Os ydych yn dod i weld gweithiau celfyddyd, sbesimenau neu arteffactau penodol, holwch cyn dod a fyddant ar gael i'w gweld yma. Mae'r arddangosfeydd yn cael eu had-drefnu o dro i dro ac mae darnau'n cael eu rhoi ar fenthyg neu'n cael eu tynnu o'r arddangosfeydd er mwyn gwneud gwaith cadwraeth arnynt.



# Cyfleusterau Arbennig ar gyfer Grwpiau Ysgolion

## Ystafell Gotiau

Mae'r Ystafell Gotiau ar gyfer grwpiau ysgolion ar lefel yr islawr. Gofynnwch i un o Gynorthwywyr yr Amgueddfa am gyfarwyddiadau. Mae'n well gadael cotiau a bagiau yn yr ystafell gotiau. Peidiwch â gadael pethau gwerthfawr yno.

## Ystafell Frechdanau

Mae ystafell ar gael i'r plant fwyta'u pecynnau bwyd drwy drefniant ymlaen llaw. Gellir trefnu sesiynau hanner awr ar gyfer grwpiau o hyd at 60 ar y tro.

Dim ond yn y Caffi, y Bwyty neu'r Ystafell Frechdanau y dylid bwyta ac yfed yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Os yw'r tywydd yn braf, efallai yr hoffech gael picnic y tu allan yng Ngerddi'r Orsedd. Gall y ffordd y tu allan i'r Amgueddfa fod yn brysur. Byddwch yn ofalus iawn wrth ei chroesi.

## Siop yr Amgueddfa

Ceir yma siop arbennig ar gyfer plant sy’n gwerthu teganau, defnyddiau addysgol a chitiau gweithgareddau. Mae llyfrau, printiadau a chardiau post ar gael hefyd. Gofynnwn i ysgolion helpu i oruchwylio'r plant trwy sicrhau mai grwpiau bach sy'n ymweld â'r siop ar y tro.

## Ymweliadau Rhagflas

Mae'r rhain ar gael i athrawon neu arweinyddion grwpiau sy'n dymuno dod i nabod yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol yn well cyn dod â'u grŵp yno. Dylech ffonio ymlaen llaw os byddwch yn dymuno siarad ag aelod o'r staff Addysg pan fyddwch yn dod.

# Iechyd a Diogelwch

Eich Amgueddfa ac Oriel chi yw hon. Mae'n lle i chwilota a dysgu. Er mwyn sicrhau bod pawb yn mwynhau eu hymweliad, gofynnwn i bawb barchu rhai rheolau:

- Gofynnwn i chi sicrhau bod plant a phobl ifanc o dan 14 oed yn cael eu goruchwylio trwy'r amser.

- Peidiwch â rhedeg yn yr Orielau a byddwch yn ofalus ar y grisiau.

- Peidiwch â chyffwrdd â gwrthrychau, sbesimenau na darluniau a pheidiwch â gadael olion bysedd ar y blychau gwydr. Cewch gyffwrdd â cherrig a mwynau yn Orielau Esblygiad Cymru ac mae Oriel Glanely yn lle arbennig i drafod pethau.

# Mewn Argyfwng

### Tân

Bydd larwm yn canu os ceir tân. Pan glywch y larwm, dylai eich grŵp adael yr adeilad trwy ddilyn yr arwyddion i'r allanfa dân agosaf. Bydd Cynorthwywyr yr Amgueddfa yn dweud wrthych beth i'w wneud.

### Cymorth Cyntaf

Os bydd angen Cymorth Cyntaf, cysylltwch ag un o Gynorthwywyr yr Amgueddfa. Bydd ef neu hi yn galw am aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig.

### Plant ar Goll

Os bydd plentyn ar goll, dylai ddweud wrth un o Gynorthwywyr yr Amgueddfa. Bydd ef neu hi yn cysylltu â'r grŵp ac yn trefnu i'r plentyn gael ei hebrwng i'r Brif Neuadd lle gall oedolyn o'r grŵp gyfarfod ag ef/hi.

### Unrhyw Argyfwng Arall

Os bydd rhyw argyfwng arall yn codi, cysylltwch ag un o Gynorthwywyr yr Amgueddfa.



# Beth gawn ni ei weld?

## Oriel Glanely

Dewch i'r oriel hon i gael profiadau ymarferol. Bydd y cyfleusterau modern a'r esbonwyr yn eich helpu i drafod eitemau o gasgliadau'r Amgueddfa ac i gymryd rhan mewn llu o weithdai a digwyddiadau arbennig.

## Celfyddyd

Cewch weld paentiadau, lluniau, cerfluniau, gwaith arian a chrochenwaith a grewyd yng Nghymru a'r byd dros y pum canrif diwethaf. Ceir yma gasgliad pwysig o waith yr Argraffiadwyr Ffrengig ochr yn ochr â gwaith arlunwyr o Gymru, ddoe a heddiw, a gwaith porslen di-hafal Abertawe a Nantgarw.

## Esblygiad Cymru

Mae arddangosfa Esblygiad Cymru yn adrodd hanes Cymru dros gyfnod o 15,000 miliwn o flynyddoedd - o'r Glec Fawr i gyfnod ffurfio'r Byd 4,600 o filiynau o flynyddoedd yn ôl ac ymddangosiad y dyn cyntaf.

Wrth i Gymru lithro'n araf o'i safle ger Pegwn y De 700 miliwn o flynyddoedd yn ôl, mae'r creigiau'n dangos tystiolaeth o'r newidiadau yn yr hinsawdd a'r amgylchedd. Mae cwrelau ffosiledig yn arwyddion o hinsawdd trofannol ac mae olion erydu yn yr uwchdiroedd yn dangos i ni fod haenau iâ wedi gorchuddio tiroedd Cymru yn gymharol ddiweddar.



## Hanes Natur


Bydd ymweliad â'r Oriel Hanes Naturiol yn mynd â chi ar daith o gwmpas y cynefinoedd gwych ac amrywiol sy'n creu amgylchedd naturiol Cymru. Mwynhewch stori'r amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw yn y lleoedd hyn, o draethau Sir Benfro i ucheldiroedd Eryri.

Edrychwch ar rai o'r pryfed anhygoel a geir mewn fforestydd trofannol, gan gynnwys ein nyth o forgrug deildorrol, a darganfyddwch effaith pobl ar y moroedd.

## Archaeoleg a Nwmismateg

Cewch gip ar hanes Cymru o gyfnod y bobl gyntaf 250,000 o flynyddoedd yn ôl i'r canol oesoedd ac wedyn.  Ceir yma dystiolaeth o Oes y Cerrig, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn, Cyfnod y Rhufeiniaid a'r Cyfnod Cristnogol Cynnar.









# Y Tu ôl i'r Llenni yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

## Y Llyfrgell

Ceir llyfrgell ymchwil a chyfeirio bwysig yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Caiff unigolion drefnu ymlaen llaw i ddefnyddio'r llyfrgell. Mae ar agor o ddydd Mawrth tan ddydd Gwener, 10am - 5pm. Gofynnir i chi drefnu'ch ymweliad dri diwrnod ymlaen llaw trwy ffonio (029) 2057 3202. Dylech nodi beth, yn benodol, yr hoffech ei weld. Ni allwn roi llyfrau ar fenthyg.

## Ystafell Astudio Printiadau a Darluniau

Mae dros 28,000 o weithiau ar bapur yn cael eu storio a'u gwarchod yn yr ystafell hon. Maent yn cynnwys lluniadau, lluniau dyfrlliw, printiadau a ffotograffau. Caiff unigolion a grwpiau o fyfyrwyr (hyd at 10) ymweld â'r Ystafell Astudio trwy drefniant ymlaen llaw. Dylid trefnu'ch ymweliad trwy ffonio'r Curadur ar 029 2057 3232.



## Casgliadau Wrth Gefn

Gall unigolion a grwpiau drefnu ymlaen llaw i weld eitemau yn y Casgliadau Wrth Gefn. Cysylltwch yn uniongyrchol â'r adran guradurol:


| | |
|---|---|
| Archaeoleg a Nwmismateg | (029) 2057 3229 |
| Celfyddyd | (029) 2057 3104 |
| Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol | (029) 2057 3220 |
| Daeareg | (029) 2057 3213 |



Gobeithio'n fawr y mwynhewch eich ymweliad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd. Hoffem i chi roi gwybod i ni sut y gallem wella'ch ymweliad. Cewch e-bostio'ch sylwadau at:

- **addysg@aogc.ac.uk** *(grwpiau addysgol)*
- **post@aogc.ac.uk** *(grwpiau eraill)*
  neu gysylltu â'r
- Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol
  Parc Cathays
  Caerdydd CF10 3NP

# Llawr Gwaelod



# Llawr Cyntaf

